

# Ffordd Gyswilt Llangefni, Rhan 1 & 2

Bwletin y Prosiect: Mehefin 2016

**GRIFFITHS**

civil engineering and construction

## Dymuno'r Gorau i Gymru yn yr Ewros 2016

Mae dros 86% o dîm y safle Llangefni yn siaradwyr Cymraeg ac yn awyddus i ddathlu hyn drwy gefnogi Mentrau Iaith Cymru ac Is Rheolwr tîm pêl droed Cymru, Osian Roberts a'u ymgyrch i hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Mae'r ymgyrch 'Pasio'r Bêl (Pass the Ball/Bale)' yn galw ar gefnogwyr o dîm pêl droed Cymru i basio'r bêl i'r person nesaf, sydd yn symbol o bwysigrwydd trosgwyddo'r iaith Gymraeg i eraill.

Dywedodd John Evans, Rheolwr Prosiect ar ran Alun Griffiths (Contractors) Ltd, sydd ei hun yn byw yn Llangefni, 'Mae'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gweithle yn bwysig iawn i ni fel cwmni ac 'rydym yn falch fod nifer sylweddol o'r staff y safle yn defnyddio'r iaith yn eu gwaith bob dydd'.



## Cynllun 'Considerate Constructors'

Yn Griffiths 'rydym yn hynod ymwybodol o'r effaith a gawn ar ein cymdogaion, sut yr ydym yn rhyngweithio gyda'r gymuned leol, ac yr argraff a roddwn o'n diwydiant.



Rydym wedi cofrestru prosiect Ffordd Cyswilt Llangefni, Rhan 1 a 2 gyda'r Cynllun 'Considerate Constructors', menter sy'n anelu at wella delwedd y diwydiant adeiladu a hyrwyddo arfer da.

Byddwn yn cael ein monitro a'n sgorio gan asesydd annibynnol ar:

- Gwella EDRYCHIAD
- Parchu y GYMUNED
- Amddiffyn yr AMGYLCHEDD
- Sicrhau DIOGELWCH pawb
- Gofalu am y GWEITHWYR

Bydd y canlyniadau yn cydnabod arfer da, ac yn cofnodi agweddau o'n gwaith i'w gwella.

Os hoffech dderbyn gwybodaeth bellach am y Cynllun 'Considerate Constructors', neu os oes gennych unrhyw faterion neu bryderon ynghylch y gwaith, peidiwch ac oedi i gysylltu â mi neu ewch i wefan 'Considerate Constructors', [www.ccscheme.org.uk](http://www.ccscheme.org.uk)

Mandy Evans  
Swyddog Cyswilt Cyhoeddus  
03300412185\*

## Diweddariad Gwaith

Mae gwaith yn dod yn ei flaen yn dda trwy gydol y safle, ac mae nifer o gerrig milltir allweddol wedi'i cyrraedd, yn enwedig y cloddwaith rhwng Lon Penmynydd (B5420) a'r cysylltiad gyda Stad Diwydiannol Bryn Cefni.

## Gwaith ar y Gweill

Bydd Gorffennaf yn gweld cau'r B5420, Lon Penmynydd am gyfnod o hyd at 6 wythnos er mwyn caniatau gwellianai i'r traeniau dŵr wyneb yng nghanol y ffordd.



Mae'r gwaith hwn wedi ei raglennu i gyd-daro â gwyliau'r haf Coleg Menai ac 'rydym yn ymddiheuro o flaen llaw am unrhyw anhwylystod y gall y gwaith hwn achosi i drigolion a defnyddwyr Lon Penmynydd

\* Bydd galwadau i'r rhif yma yn costio gyfradd genedlaethol galwadau ac yn cael ei cynnwys mewn cynllun munudau o llinellau ffon a ffonau symudol.

## ICE Rhaglen 'Bridge to Schools'

Mae Griffiths yn ymroddedig i godi proffil y diwydiant adeiladu ac yn ennyn brwdfrydedd Peiriannwyr Sifil y dyfodol. Mae'r ymrwymiad hwn wedi arwain at datblygu nifer o raglenni sydd yn ymgysylltu ac ysgolion, colegau a phrifysgolion lleol. Un o'r rhain yw'r 'Institution of Civil Engineers' (ICE), a'i rhaglen 'Bridge to Schools', sydd yn brofiad ymarferol ar gyfer disgyblion sy'n arddangos dylunio a pheirianneg yn syml ac ar ei orau, mewn ffurf pont 'Cable Stay Bridge' 35 troedfedd o hyd. Mae'r gweithgaredd hwn yn gwella dysgu'r disgyblion mewn amryw o bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ogystal ag amlygu'r gyrfaedd o fewn y diwydiant adeiladu fel Peirianydd Sifil, Tर्फesurwr a Swyddog Iechyd ac Diogelwch.

Wrth i ddisgyblion adeiladu model o'r Ail Bont Hafren maent yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu, a'r gall i weithio gyda'i gilydd mewn timau ac eu sgiliau gwrando. Rydym eisiau gallu hyrwyddo ein diwydiant ac ysbrydoli peiriannwyr y dyfodol. Mae y gweitharedd hwn yn lwyfan i wneud hyn ac i ymgysylltu gyda disgyblion o bob oedran.

Byddwn yn brysur yn ymweld ag ysgolion yn ardal Llangefni gyda'r 'ICE Bridge', os ydych yn gwybod am glwb ieuenctid neu gymdeithas a fyddai'n hoffi i ni fynychu, cysylltwch â'n Swyddog Cyswllt Cyhoeddus, Mandy Evans, ar 03300412185\*

Mae rhaglen 'ICE Bridge to Schools' am ddim ac yn sicr i wneud dysgu yn hwyll!



## Ymweliadau ysgol â Safle Archeolegol

Yn dilyn darganfyddiadau cyffrous archeolegol, gwahoddwyd disgyblion o'r ddwy ysgol gynradd yn Llangefni i ymweld â'r safle, a chael golwg o'r gwaith archeolegol ar y gweill ac edrych ar rai o'r arteffactau sydd wedi cael eu dadorchuddio.

Cyntaf i ymuno â ni oedd blynyddoedd 3 a 4 o'n cymdogion, Ysgol y Graig. Gwelodd 96 o ddisgyblion, mewn 4 grŵp, yr archeolegwyr yn gwneud y gwaith trylwyr o gloddio'r gweddillion dynol o safle gwyllo a baratowyd yn arbennig ger yr ardal cloddio archeolegol. Roedd hyn yn sicrhau bod y plant a'u hathrawon yn gallu gweld y fynwent gerllaw heb amharu ar y gwaith manwl oedd yn mynd ymlaen.

Ar ôl eu hymweliad â'r safle archeolegol cafodd y plant gyfle i weld rhai o'r arteffactau, gan gynnwys penglog dynol. Roedd y plant yn llawn cwestiynau a gyda diddordeb arbennig ym mha mor dda oedd y penglog a'i ddanedd wedi cadw. Yn yr un modd ymwelodd 56 o ddisgyblion Ysgol Corn Hir, gyda rhai hyd yn oed yn mynegi diddordeb mewn dilyn gyrfa fel archeolegydd yn y dyfodol

'Roedd digybllion hefyd yn cael y cyfle i weld broets efydd fechan a ddarganfyddwyd yn un o'r beddi, a credir iddi ddyddio o ddiwedd y cyfnod Rhufeinig, ynghyd â clasp broets a darnau o llechi tô sy'n awgrymu gall fod gweddillion adeiladau yn cyfagos.



Byddem wrth ein bodd clywed eich sylwadau, cysylltwch gyda ni drwy ein tudalen wê, [community.alun.griffiths.co.uk](http://community.alun.griffiths.co.uk) neu cysylltwch â'n Swyddog Cyswllt Cyhoeddus, Mandy Evans ar 03300412185\*

\* Bydd galwadau i'r rhif yma yn costio gyfradd genedlaethol galwadau ac yn cael ei cynnwys mewn cynllun munudau o llinellau ffon a ffonau symudol.